# Gair i gall ar gyfer arbed ynni

Rhowch gynnig ar un o'r cynghorion arbed ynni syml hyn i arbed adnoddau a lleihau biliau ynni yn eich gweithle.



## Gwresogi a dŵr poeth

**Mae gwresogi ac awyru'n debygol o fod yn gyfrifol am gyfran uchel o'ch bil trydan, felly dyma le da i gychwyn wrth chwilio am ffyrdd i arbed ynni.**

- Gal cyn lleied ag 1°C o orgynhesu gynyddu costau tanwydd 8% – mae hynny'n golygu defnyddio'r un faint o ynni ag argraffu mwy na 40 miliwn tudalen o bapur A4!* – felly peidiwch â throi'r gwres i fyny heb fod angen.
- Dwedwch wrth eich rheolwr ynni neu dîm cyfleusterau os oes unrhyw ardaloedd yn rhy boeth, yn rhy oer neu'n rhy ddrafftiog. Gallai hynny fod yn arwydd o broblem cynnal a chadw.
- Osgowch ddefnyddio'ch gwresogyddion neu'ch gwyntyllau eich hunain; yn hytrach, siaradwch â'ch rheolwr ynni ynglŷn ag ailraglennu'r system wresogi neu awyru.
- Gwiriwch nad oes tapiau'n cael eu gadael yn rhedeg – a rhowch wybod i'r rheolwr ynni neu gyfleusterau am unrhyw dapiau sy'n diferu neu sestonau sy'n gorlifo.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Nid yw troi'r thermostat i fyny i'w osodiad uchaf yn cynhesu'r gofod yn gyflymach o gwbl; y cyfan mae'n wneud ydy arwain at orgynhesu.**

## Goleuo

**Gall goleuo fod yn ddrud mewn adeiladau mawr, cynllun agored, ond mae rhai camau rhwydd y gallwch eu cymryd i arbed ynni.**

- Diffoddwch y goleuadau mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio neu lle nad oes synwyryddion – ac atgoffwch y staff a'r cyhoedd i wneud hynny hefyd.
- Os ydych chi'n defnyddio bleinds i gadw heulwen lachar allan, cyfeiriwch nhw tuag at y nenfwd neu waliau fel bod dim angen goleuadau mewnol arnoch chi hefyd.
- Rhowch wybod am unrhyw oleuadau diffygiol neu annigonol i'r rheolwr ynni neu gyfleusterau.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Os byddwch chi'n diffodd golau am ychydig eiliadau yn unig, mae'n arbed mwy o ynni nag a ddefnyddir i ailgynnau'r golau eto.**

## Cyfarpar

**Mae cyfarpar TGCh neu gyfarpar arbenigol yn gallu defnyddio cryn dipyn o ynni, ond mae wastad ffyrdd y gellir lleihau hynny.**

- Peidiwch â gadael cyfarpar ymlaen yn y modd segur: maen nhw'n dal i ddefnyddio pŵer hyd yn oed os ydyn nhw'n edrych fel petaen nhw wedi'u diffodd!
- Llenwch y tegell gyda faint o ddŵr sydd ei angen arnoch, a dim mwy – mae berwi mwy yn gwastraffu dŵr a thrydan.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio unrhyw osodiadau arbed pŵer ar gyfrifiaduron a chyfarpar swyddfa (e.e. llungopïwyr).
- Diffoddwch unrhyw gyfarpar trydanol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd hyn yn helpu i ymestyn oes y cyfarpar, ond bydd hefyd yn arbed ynni ac arian. Bydd cyfrifiadur sy'n cael ei adael ymlaen 24/7 yn costio tua £53 y flwyddyn.†

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Mae diffodd eich cyfrifiadur dros nos ac ar benwythnosau yn lleihau ei gost i oddeutu £11 y flwyddyn ac yn arbed cymaint o ynni ag y byddai ei angen i wneud mwy na 30,000 o baneidiau coffi!†**

**Siaradwch â ni!** Rhowch wybod am unrhyw broblemau goleuo neu wresogi i:

TEC ENERGY & EDUCATION CONNECTED

EDF

Ffynonellau: * https://www.carbontrust.com/resources/guides/energy-efficiency/employee-awareness-and-office-energy-efficiency/
† https://www.carbontrust.com/media/39208/ctv020_further_and_higher_education.pdf

EDF Energy Ltd ar ran EDF Energy (UK) Limited, (Rhif Cofrestredig 2622406). Swyddfa gofrestredig: 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ.